

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Ceredigion

Ebrill 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Ceredigion

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Sir Ceredigion ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r weledigaeth yn weddol glir o ran egwyddorion sylfaenol yr Awdurdod mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg, er nad yw'n mynd i fanylder. Mae'r egwyddorion hyn yn rhai cadarn a chymeradwy.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r amlinelliad a'r dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol yn glir. Croesawn y ffaith fod targed clir ar gyfer cynyddu'r ganran o blant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill, ac y bwriedir eu cymryd yn ymddangos yn gadarnhaol ac yn gweddu i'r amgylchiadau.

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon, yn enwedig y ffaith fod pob lleoliad Dechrau'n Deg yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r bwriad i sicrhau bod pob ysgol gynradd gyfrwng Saesneg yn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, drwy fecanwaith y cynlluniau gweithredu.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Unwaith eto, croesawn y wybodaeth/dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol a ddarperir. Fodd bynnag, teimlwn fod diffyg targedau mesuradwy penodol drwyddi draw yn yr adran hon. Yn ogystal, mae diffyg ystadegau dros gyfnod o flynyddoedd a fyddai'n gallu darlunio'r 'cynnydd da' y sonnir amdano.

Mae'r 'protocol dilyniant' yn declyn gwerthfawr, ac mi fyddai'n braf gweld copi o'r protocol mewn atodiad i'r Cynllun Strategol.

Dywedir bod y darlun o ran addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 yn amrywiol - byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad manylach o'r sefyllfa, ac o'r camau gweithredu a fydd yn arwain at gynnydd yn y maes penodol hwn.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Mae'r trefniadau cyfredol a'r cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn ymddangos yn drefnus ac yn canolbwyntio mewn modd priodol ar rôl y Gymraeg yn systemau addysg yr awdurdod.

Unwaith eto, nodwn y diffyg targedau mesuradwy ar gyfer y deilliannau hyn. Teimlwn yn ogystal y byddai rhagor o ffigyrau, e.e. yn dangos faint o blant sy'n mynychu'r gwahanol ysgolion uwchradd, yn rhoi cyd-destun defnyddiol er mwyn gallu dehongli'r ystadegau sydd yn y testun ar hyn o bryd. Mae 18.3% yn ymddangos yn ganran isel o'r garfan gyfan i fod wedi sefyll 5 neu fwy TGAU cyfrwng Cymraeg - mae angen rhagor o esboniad a dehongliad ar y ffigwr hwn.

Cydsyniwn yn llwyr bod angen cydweithio gyda'r byrddau arholi i sicrhau bod adnoddau, manylebau a hyfforddiant ar gael yn brydlon trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer manylebau newydd 2015.

Er y dyfynnir 67% fel y ffigwr ar gyfer canran y dysgwyr yn yr ysgolion uwchradd penodedig Cymraeg sy'n astudio dau neu fwy o bynciau yn y Gymraeg, nid oes digon o fanylder am yr 'ysgolion traddodiadol ddwyieithog' yma - ni theimlwn ei fod yn ddigonol i ddweud bod y darlun 'yn amrywiol' - hoffwn weld fwy o fanylder.

Sonnir am y bwriad i gynyddu'r ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond ni osodir targed ar gyfer yr amcan hwn.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Unwaith eto, cymeradwywn gynnwys yr adran hon o'r Cynllun yn gyffredinol, ond tynnwn sylw unwaith eto at absenoldeb llwyr unrhyw dargedau mesuradwy.

O ran Cymraeg Ail Iaith, cyfeirir at 'gynnydd da mewn tair blynedd'; byddem wedi hoffi gweld y ffigyrau dros y tair blynedd sy'n darlunio'r cynnydd da. Byddai ffigyrau o'r fath yn ei gwneud hi'n rhwyddach i osod targed ystyrlon ar gyfer cynnydd.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Mae'r dadansoddiad a'r camau gweithredu'n ymddangos yn gadarn. Mae llawer i'w groesawu o ran y camau y mae'r Awdurdod eisoes yn eu cymryd.

Crybwyllir bod 'mwyafrif disgyblion yr unedau cyfeirio yn sefyll arholiad Cymraeg neu Gymraeg Ail Iaith' – mi fyddai'n ddefnyddiol cael gweld y ffigyrau yn y Cynllun.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon.

Fodd bynnag, ni roddir ffigyrau ar gyfer swyddi sydd heb eu llenwi, na sut mae'r Awdurdod yn mynd at i ddatblygu arweinyddion y dyfodol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod faint o staff sydd wedi mynychu cyrsiau'r Cynllun Sabothol.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)